Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# NMC

# Cynllun Corfforaethol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2020–2021

Cyhoeddwyd ar 29 Ebrill 2020

# Neges gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd



Rydym yn dechrau'r flwyddyn mewn cyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen wrth i ni ymateb i fygythiad byd-eang y coronafeirws newydd (Covid-19). Mae'r DU mewn sefyllfa o argyfwng, gyda bywydau dan fygythiad a salwch difrifol yn sgil y pandemig.

Rydym yn dechrau'r flwyddyn mewn cyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen wrth i ni ymateb i fygythiad byd-eang y coronafeirws newydd (Covid-19). Mae'r DU mewn sefyllfa o argyfwng, gyda bywydau dan fygythiad a salwch difrifol yn sgil y pandemig.

Ein blaenoriaeth gyntaf yw cefnogi'r ymateb i'r pandemig drwy helpu i greu capasiti ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig.  Mae deddfwriaeth frys wedi ein galluogi i sefydlu cofrestr dros dro Covid-19, ac ar adeg ysgrifennu hyn, mae bron i 10,000 o gyn-nyrsys a bydwragedd a chofrestryddion tramor wedi dewis ymuno ac yn barod i gefnogi'r ymdrech genedlaethol.

Mae difrifoldeb y pandemig yn golygu ein bod wedi rhoi blaenoriaeth i'r ymateb i Covid-19 cyn yr holl flaenoriaethau eraill a nodir yn y cynllun corfforaethol blynyddol hwn.  Yn ystod yr argyfwng rydym yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn parhau i reoleiddio'n effeithiol er budd y cyhoedd a'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr.

Ni chafodd y pandemig coronafeirws ei ystyried yn wreiddiol wrth i ni ddatblygu'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn y cynllun hwn. O ganlyniad, ni fyddwn yn gallu cyflawni popeth rydym wedi'i nodi yn yr amserlenni y gwnaethom eu rhagweld. Mae'r ffordd rydym yn gwneud pethau, yn enwedig ymgysylltu â'n cydweithwyr a'n partneriaid, hefyd wedi gorfod newid yn y tymor byr, yn enwedig yng ngoleuni'r cyfyngiadau symud a chadw pellter cymdeithasol. Rydym eisoes wedi gwneud penderfyniadau i oedi neu arafu mentrau penodol o ganlyniad i hynny.

Pan fydd y pwysau uniongyrchol wedi ysgafnhau, bydd angen i ni ystyried ein gwaith yn fwy trylwyr a chytuno ar gamau cyflwyno newydd, y byddwn yn eu hadolygu'n gyson wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Rydym yn disgwyl gwneud hyn erbyn diwedd chwarter dau, gan rannu cynllun wedi'i ddiweddaru yn yr hydref. Yn y cyfamser byddwn yn parhau i fonitro ein cynnydd drwy fesurau perfformiad, adroddiadau cynnydd, a monitro cyllideb a risg.

Rwy'n ddiolchgar i'm cydweithwyr ar draws yr NMC, nid dim ond am y gwaith gwych y maent eisoes wedi'i wneud mewn ymateb i Covid-19, ond hefyd am y gwaith y byddant yn ei wneud yn y misoedd i ddod i roi'r cynllun hwn ar waith a dechrau dod â'n strategaeth bum mlynedd newydd yn fyw, er budd iechyd a lles pawb.

Hoffwn hefyd ddiolch i'n partneriaid ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn gyntaf am helpu i lywio'r strategaeth sy'n arwain y cynllun hwn, ac yn ail am weithio gyda ni mor glos wrth i bob un ohonom chwarae ein rhan yn mynd i'r afael â phandemig Covid-19.

Ac yn olaf, diolch i'r holl weithwyr proffesiynol ar ein cofrestrau Covid-19 parhaol a dros dro sy'n darparu gofal nyrsio a bydwreigiaeth diogel, caredig ac effeithiol yn yr amgylchiadau mwyaf heriol hyn.

**Andrea Sutcliffe**

Mae 2020–2021 yn nodi blwyddyn gyntaf ein strategaeth newydd sbon ar gyfer 2020–2025. Bwriedir i'r cynllun blynyddol hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'n strategaeth bum mlynedd, y gallwch ei darllen yn llawn yn nmc.org.uk/strategy.

Mae Ffigur 1 yn rhoi trosolwg o'r weledigaeth, y diben, y rôl, y themâu strategol a'r gwerthoedd ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

**Pwrpas** Hyrwyddo a chynnal y safonau proffesiynol uchaf mewn nyrsio a bydwreigiaeth - amddiffyn y cyhoedd, ennyn hyder y cyhoedd.

**Gweledigaeth** Arferion nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig, gan wella iechyd a llesiant pawb.

**Ein rôl**
*2020–25*

**Rheoleiddio**
- **Cofrestr** cywir a thryloyw
- **Safonau** proffesiynol ac addysgol cadarn
- Sicrhau **rhaglenni addysg**
- Ymateb yn deg i **bryderon addasrwydd i ymarfer (FtP)**

**Cefnogaeth**
- Hyrwyddo **dealltwriaeth** – ein galwedigaethau a'n rôl
- Darparu **offer ymarferol** – help i sefydlu safonau
- **Cymorth emosiynol/ymarferol** – y bobl sy'n gysylltiedig â'n prosesau

**Dylanwad**
- Hyrwyddo **amgylchedd gwaith proffesiynol** positif a chynhwysol
- Rhannu **data a mewnwelediad** i nodi risgiau niwed a mynd i'r afael â heriau'r gweithlu
- Annog **arloesedd rheoliadol**

**Themau ar gyfer** *2020–25* Gwelliant ac arloesi | Cefnogaeth ragweithiol | Gweledol a mwy gwybodus | Mwy apelgar a grymus | Mewnwelediad a dylanwad

**Gwerthoedd** Teg Caredig Cydweithredol Uchelgeisiol



Wrth i ni gychwyn blwyddyn gyntaf ein cyfnod strategol newydd, rydym yn dechrau ein taith strategol o seiliau cadarn. Mae ein cynlluniau yn seiliedig ar lwyddiannau megis ein safonau hyfedredd newydd, dulliau dysgu a arweinir gan yrfa drwy ail-ddilysu, newidiadau i'n prosesau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer, a sylfaen wybodaeth sydd wedi'i llunio drwy ymgysylltu â chofrestryddion a rhanddeiliaid allweddol er mwyn ein helpu i lunio'r dyfodol

**Dyma'r hyn y byddwn yn canolbwyntio arno ar gyfer y flwyddyn i ddod:**

## Gorffen yr hyn rydym wedi'i ddechrau

Byddwn yn parhau i gyflwyno rhaglenni gwaith pwysig rydym eisoes wedi dechrau arnynt. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn at addasrwydd i ymarfer, cyflwyno gwelliannau technolegol sylfaenol i ddisodli'r hen systemau ar gyfer ein cofrestr, parhau i wella prosesau ar gyfer cofrestru ymgeiswyr tramor, a sefydlu safonau ar gyfer ôl-gofrestru.

## Llunio cynlluniau ynghylch sut y byddwn yn cyflwyno meysydd gwaith newydd a fydd yn ategu'r ffordd rydym yn rheoleiddio yn y dyfodol

Byddwn yn defnyddio blwyddyn gyntaf ein strategaeth newydd i osod y sylfeini ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol. Byddwn yn dyfeisio dulliau newydd o ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys darpar gofrestryddion, datblygu ein model ar gyfer sut y byddwn yn ymgysylltu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac yn diffinio'r galluoedd y bydd eu hangen arnom i ddefnyddio data a gwybodaeth yn well. Byddwn hefyd yn llunio cynllun tymor hir ar gyfer sut y byddwn yn diweddaru ein safonau yn y dyfodol.

## Cyflawni ein blaenoriaethau strategol cyntaf

Drwy weithio gyda'r Llywodraeth, byddwn yn defnyddio prosesau diwygio rheoleiddio i foderneiddio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoleiddio proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn dylanwadu ar ein prosesau rheoleiddio yn y dyfodol.

Gan ddysgu o brofiadau llwyddiannus o ymgysylltu a chyd-gynhyrchu parhaus, byddwn yn datblygu egwyddorion ar gyfer sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio a chyflwyno dulliau rheoleiddio proffesiynol sy'n galluogi rhanddeiliaid i'n dal yn atebol.

## Sicrhau bod yr NMC yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn barod ar gyfer llwyddiant

Byddwn yn cysoni ein seilwaith, ein galluoedd a'n diwylliant â'n nodau strategol newydd drwy gyflwyno strwythur sefydliadol newydd, ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiad newydd a fydd yn llywio diwylliant gwell gyda chydweithwyr yn yr NMC, darparu technolegau newydd a llunio cynlluniau ar gyfer moderneiddio ein swyddfeydd.

# Ein blaenoriaethau ar gyfer 2020–2021

## Cyflwynir pob blaenoriaeth dan ein themâu strategol ar gyfer 2020–2025






# Gwella ac arloesi

Gwella ac arloesi ar draws ein holl swyddogaethau rheoleiddio, gan ddarparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid, a sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r cyhoedd o'r hyn rydym yn ei wneud.

### 1. Byddwn yn parhau i sicrhau bod nyrsys a bydwragedd yn cael eu rheoleiddio'n effeithiol ledled y DU, yn ogystal â chymdeithion nyrsio yn Lloegr.

- cadw cofrestr gywir a thryloyw o fydwragedd, nyrsys a chymdeithion nyrsio, a sefydlu a chynnal cofrestr Covid-19 dros dro
- pennu safonau ymddygiad a hyfedredd cadarn a helpu i gynnal safonau drwy ail-ddilysu
- sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth
- ymateb yn deg i bryderon am fydwragedd, nyrsys a chymdeithion nyrsio.

Yn 2020–2021 byddwn yn canolbwyntio ar fonitro ein heffeithiolrwydd drwy ddangosyddion perfformiad allweddol corfforaethol a fydd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan bob chwarter. Byddwn yn adolygu ein DPA a'n metrigau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n strategaeth newydd.

### 2. Byddwn yn parhau i roi ein hymagwedd strategol newydd tuag at addasrwydd i ymarfer (FtP) ar waith er mwyn gwella ein hymagwedd at ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer a gwella'r profiad a'r gefnogaeth i'r rhai dan sylw, boed hynny'n weithwyr proffesiynol neu'r cyhoedd.

**Yn 2020–2021 byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:**

- cwblhau a gwerthuso'r cynllun peilot ar gyfer ein dull newydd o weithredu er mwyn ystyried cyd-destun digwyddiadau, gan barhau i ganolbwyntio ar atebolrwydd proffesiynol unigol
- gwella'r gefnogaeth i dystion sy'n agored i niwed ac aelodau o'r cyhoedd sy'n rhan o'n trafodion
- darparu gwasanaeth cyfeirio a chymorth gwell i weithwyr proffesiynol ym maes nyrsio a bydwreigiaeth i gymryd rhan yn ein trafodion
- ymgorffori ein dulliau newydd o ran:
  - gwell arweiniad a chefnogaeth i gyflogwyr ar sut i gyfeirio achosion i'r NMC
  - galluogi gweithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth i unioni pethau fel rhan o'n trafodion
  - defnyddio gwrandawiadau yn y modd gorau drwy ganolbwyntio ar ddatrys materion sy'n destun anghydfod materol.

### 3. Byddwn yn cyflawni'r cam nesaf o welliannau i gofrestru ymgeiswyr tramor.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio yn 2020–2021 ar wella'r cymorth rydym yn ei roi i'n hymgeiswyr tramor a'r rhai sy'n eu cefnogi, gan ddatblygu ein model prawf cymhwysedd yn unol â'n safonau hyfedredd newydd.

## Cymorth rhagweithiol i weithwyr proffesiynol

Galluogi ein proffesiynau i gynnal ein safonau heddiw ac yfory, gan ragweld a siapio arferion nyrsio a bydwreigiaeth yn y dyfodol.

### 4. Byddwn yn cyflwyno set newydd o safonau hyfedredd ôl-gofrestru uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar ymarfer cymunedol (ymweliadau iechyd, nyrsio iechyd galwedigaethol, nyrsio mewn ysgolion a chymhwyster ymarferydd arbenigol: nyrsio cymunedol).

**Byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol yn ystod 2020–2021:**

- llunio set o bedair safon newydd ar y cyd
- ymgynghori ar y safonau hyn a chael defnyddwyr i'w profi.

Disgwylir i'r safonau newydd gael eu cyhoeddi yn hydref 2021.

### 5. Byddwn yn archwilio dull newydd o sicrhau ein bod yn mynd ati mewn ffordd ddeinamig i ddatblygu safonau proffesiynol, er mwyn ymateb yn gyflym i heriau proffesiynol newydd.

**Byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol yn ystod 2020–2021:**

- cytuno ar ein hymagwedd at ddarparu adnoddau cefnogol ychwanegol i ymarfer proffesiynol
- datblygu blaenraglen ar gyfer diweddaru ein safonau.



## Mwy gweladwy a hyddysg

Sicrhau cysylltiad agosach â'n proffesiynau, eu cyflogwyr a'u haddysgwyr fel y gallwn reoleiddio gyda dealltwriaeth ddyfnach o amgylchedd dysgu a gofal pob un o wledydd y DU.

### 6. Byddwn yn adolygu ac yn datblygu ein presenoldeb mewn ardaloedd lleol ar draws rhanbarthau Lloegr ac yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan barhau i ganolbwyntio ar ddarparwyr ac ymestyn ein rhwydweithiau sy'n seiliedig ar le ymhellach.

**Yn 2020–2021 byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:**

- llunio adolygiad ar y cyd o'n model gwasanaeth cyswllt cyflogwr presennol
- cytuno ar fodel newydd a llunio cynllun gweithredu ar gyfer ymgysylltu'n lleol.

## Grymuso ac ymgysylltu

Ymgysylltu'n weithredol â'r cyhoedd, ein proffesiynau a'n partneriaid, a'u grymuso. NMC sy'n ddibynadwy ac yn ymatebol, yn mynd ati i feithrin dealltwriaeth o'r hyn rydym ni a'n gweithwyr proffesiynol yn ei wneud dros bobl.

### 7. Byddwn yn llunio ac yn cytuno ar ddull gweithredu ar draws y sefydliad sy'n sicrhau mai pobl sydd wrth wraidd yr hyn a wnawn, ac yn llunio egwyddorion ar gyfer cyd-gynhyrchu ein gwasanaethau a'n safonau addysgol.

**Yn 2020–2021 byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:**

- sefydlu a mabwysiadu egwyddorion ar gyfer cyd-gynhyrchu ar draws ein holl waith
- cytuno ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ein holl weithgarwch rheoleiddiol a'i roi ar waith.

### 8. Byddwn yn datblygu dull mwy systematig ac wedi'i dargedu o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws pedair gwlad y DU.

**Yn 2020–2021 byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:**

- cynnal adolygiad o gysylltiadau rhanddeiliaid ar draws y sefydliad i lywio fframwaith cysylltiadau ar gyfer rheoli'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid hyd at 2025
- darparu rhaglen ymgysylltu wedi'i thargedu â rhanddeiliaid ar draws y pedair gwlad, gan gynnwys Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig.

# Mwy o wybodaeth a dylanwad

Dysgu o ddata ac ymchwil i wella'r hyn rydym yn ei wneud a gweithio ar y cyd i rannu gwybodaeth yn gyfrifol er mwyn helpu i wella'r system iechyd a gofal ehangach

### 9. Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) ac eraill ar raglen ddiwygio sylweddol i lywio gwelliannau i'n fframwaith deddfwriaethol.

**Iedled y DU. Er bod ansicrwydd o hyd ynghylch amseriad a chanolbwynt y gwaith hwn, bydd y broses ddiwygio yn cynnwys:**

- llunio cwmpas y polisi i'w ddiwygio mewn cydweithrediad â rheoleiddwyr eraill a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol
- gweithio gyda'r DHSC i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth
- ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i wrando ar adborth
- cefnogi'r broses ddeddfwriaethol
- cynllunio'r broses o roi'r ddeddfwriaeth ar waith mewn polisïau, systemau a phrosesau mewnol.

### 10. Byddwn yn dechrau gwella'r ffordd rydym yn defnyddio data a gwybodaeth a'u cyhoeddi er mwyn ychwanegu gwerth ar gyfer ein rhanddeiliaid a helpu i lywio'r sector.

**Yn 2020–2021 byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:**

- cwblhau a chyhoeddi ein dadansoddiad o ddata cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a chytuno ar gynlluniau i fynd i'r afael â'r canfyddiadau
- gweithio gyda'n partneriaid ledled y DU i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- cynllunio gwelliannau i'r wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi am gyflwr addysg ac ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU
- adolygu'n gwybodaeth fewnol, ein data a'n galluoedd dadansoddol.

# Sefydliad addas i'r dyfodol

Mae gan ein nodau strategol oblygiadau sylweddol o ran sut rydym yn gweithredu fel sefydliad. Byddwn yn sicrhau bod ein diwylliant, ein galluoedd a'n seilwaith yn cyd-fynd â'n nodau strategol newydd.

### 11. Byddwn yn sicrhau bod gennym y galluoedd, y prosesau a'r adnoddau iawn i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer y cyfnod strategol sydd o'n blaenau.

**Yn 2020–2021 byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:**

- darparu cynllun sefydliadol newydd gyda strwythur cyfarwyddiaethau newydd sy'n dwyn ynghyd weithgareddau a galluoedd cyffredin
- ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiad newydd drwy raglen ymgysylltu fewnol helaeth a'i hymgorffori yn ein prosesau rheoli pobl (gan gynnwys recriwtio ac arfarnu)
- cyflawni cam nesaf ein cynllun pobl i sicrhau bod yr NMC yn lle gwych i weithio, yn cynnwys: y ffordd rydym yn adolygu dyfarniadau; datblygu cynlluniau ar gyfer dilyniant; rhaglen ddysgu a datblygu wedi'i diweddaru; a chysoni ein strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant â safon cydraddoldeb hiliol gweithlu'r GIG
- darparu ein hateb technolegol newydd i symud ein cofrestr o'n hen systemau i Microsoft Dynamics 365
- cyflawni'r gwaith sylfaenol ar gyfer symud ein system rheoli achosion addasrwydd i ymarfer i'r platfform newydd
- gwella profiad defnyddwyr o'n technolegau digidol a sicrhau bod ein seilwaith yn barod i groesawu'r cyfleoedd rydym yn eu datblygu yn y dyfodol. Byddwn yn adolygu ac yn datblygu cynlluniau i ddiweddaru ein seilwaith TGCh craidd ac yn parhau i roi data ac atebion dadansoddol ar waith sy'n cefnogi ffyrdd newydd o weithio
- datblygu cynlluniau i sicrhau bod gennym le gwaith modern a deinamig yn dechrau o 2021 gan ganolbwyntio ar 23 Portland Place a Chaeredin



Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
23 Portland Place, London W1B 1PZ

nmc.org.uk nmcuk nmcnews

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)